
Cafcass Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hawdd ei Ddeall



# Cafcass Cymru - Ein Cynlluniau

## Beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2026 a 2031



**Ebrill 2026**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cynllun Strategol Cafcass Cymru 2026 – 2031**.



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cafcass Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** https://www.llyw.cymru/cafcass-cymru

**E-bost:** CafcassCymruCAPT@gov.wales

**Ffôn:** 03000 255600

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Am Cafcass Cymru a'r Cynllun yma** ........ **4**

**Ein Nodau ar gyfer 2026-2031** ........ **9**


**Sut fyddwn ni'n cyrraedd ein nodau** ........ **11**

Ein Gwasanaeth: Rhoi plant yn gyntaf ........ 12

Ein Staff: Cefnogi ein tîm ........ 16

Eraill: Gweithio gyda'n gilydd ag eraill ........ 19

# Am Cafcass Cymru a'r Cynllun yma




Ein nod mwyaf ydy rhoi plant yn gyntaf ym mhopeth rydyn ni yn ei weud.



Mae Cafcass Cymru yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.




Mae ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â'r llys teulu, pan fydd y llys yn gofyn i ni helpu.



Ein gwaith ni ydy rhoi cyngor annibynnol i'r llys.




Mae'n ymwneud â beth rydyn ni'n meddwl sydd orau i bob plentyn. Rydyn ni'n edrych ar eich anghenion, eich dymuniadau a'ch teimladau, a'ch sefyllfa.



Rydyn ni bob amser yn rhoi pob plentyn yn gyntaf. Mae eich diogelwch a'ch llesiant yn bwysig iawn.



Rydyn ni'n gwrando ar rieni a gofalwyr i'n helpu i ddeall bywydau plant. Rydyn ni'n gwrando ar bob plentyn trwy eu geiriau, gweithredoedd neu deimladau.




Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn yn llywio'r gwaith rydyn ni'n ei wneud. Mae'n cael ei alw yn CCUHP yn fyr.

# Ein gwerthoedd



Mae ein gwerthoedd yn dweud beth sy'n bwysig i ni.  Maen nhw'n llywio sut rydyn ni'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.

## Rhoi Plant yn Gyntaf



Rydyn ni'n gwrando ar blant i ddeall beth maen nhw eisiau a'i angen.



Rydyn ni'n gofyn i blant am y bobl a'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw.



Rydyn ni'n rhoi syniadau i'r llys i wneud yn siŵr bod diogelwch a llesiant yn dod yn gyntaf.

# Parch



Rydyn  ni'n gwerthfawrogi pawb a'u hawl i gael eu clywed.



Rydyn ni'n trin pobl yn garedig ac yn deg.



Rydyn ni'n trin pobl yn gyfartal ac yn deg. Beth bynnag ydy eu cefndir, eu credoau a'u hanghenion.

## Proffesiynol:



Rydyn ni'n gweithredu'n agored ac yn onest.




Rydym yn dweud beth rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd. Rydym yn seilio hyn ar ffeithiau a beth sy'n deg. Nid ydym yn cymryd ochr.



Rydyn ni'n gwrando ar farn pobl amdanom ni. Mae hyn yn ein helpu i wella a darparu'r gwasanaethau gorau posibl.

# Ein Nodau ar gyfer 2026-2031




Rydyn ni wedi gweithio gyda'n staff i wneud cynllun. Mae'n nodi beth rydyn ni eisiau ei wneud dros y 5 mlynedd nesaf.



Mae'r cynllun yma yn llywio ein gwaith fel ein bod ni'n gallu parhau i wneud gwahaniaeth go iawn.



Er mwyn gwneud y cynllun yma, fe wnaethon ni wrando ar syniadau gan eraill, gan gynnwys plant a phobl ifanc.



Rydyn ni eisiau parhau i wella sut rydyn ni'n gweithio. Gwneud yn siŵr ein bod yn canolbwyntio ar beth mae plant ei angen fwyaf.

**Am y 5 mlynedd nesaf fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar 3 phrif nod:**



- **Ein Gwasanaeth: Rhoi plant yn gyntaf**

  Rydyn ni eisiau rhoi'r gwasanaeth gorau posibl i'r plant a'r teuluoedd rydyn ni'n gweithio gyda nhw.



- **Ein Staff: Cefnogi ein tîm**

  Rydyn ni eisiau i'r bobl sy'n gweithio yn Cafcass Cymru gael eu trin yn dda. Rydyn ni eisiau eu cefnogi i wneud eu gorau glas dros blant a theuluoedd.



- **Eraill: Gweithio gyda'n gilydd ag eraill**

  Rydyn ni eisiau rhannu beth rydyn ni'n ei wybod a'i ddysgu gan sefydliadau eraill.

# Sut fyddwn ni’n cyrraedd ein nodau




Dros y 5 mlynedd nesaf, fe fyddwn ni’n parhau i wella’r gwasanaeth rydyn ni’n ei roi.



Bob blwyddyn, fe fyddwn ni’n edrych pa mor dda rydyn ni’n gwneud ac yn gwneud newidiadau lle mae angen.



Rydyn ni’n canolbwyntio ar beth sydd fwyaf pwysig: Gwneud yn siŵr bod lleisiau plant yn cael eu clywed yn y llys teulu.

## Dyma sut fyddwn ni'n ei wneud:



# Ein Gwasanaeth: Rhoi plant yn gyntaf



Rydyn ni eisiau rhoi'r gwasanaeth gorau posibl i'r rhai rydyn ni'n gweithio gyda nhw.

### Rhoi lleisiau a diogelwch plant yn gyntaf




Fe fyddwn ni'n cefnogi ein staff i ddefnyddio ein canllaw o'r enw Fframwaith Ymarfer: Rhoi Plant yn Gyntaf.



Fe fyddwn ni'n helpu plant i gymryd rhan yn eu hachos llys. Fe fyddwn ni'n gwneud gwybodaeth ar ein gwefan yn haws.




Fe fyddwn ni’n eu harwain i wasanaethau eiriolaeth. Mae’r rhain yn wasanaethau sy’n cefnogi plant i ddweud beth maen nhw eisiau digwydd.



Fe fyddwn ni’n gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu clywed.




Fe fyddwn ni’n gwneud hyn cyn gynted â phosibl. Fe fyddwn ni’n gweithio i leihau oedi yn y llys. Fe fyddwn ni’n cadw plant yn gyfredol ar bob cam.



Fe fyddwn ni’n defnyddio ein cynlluniau i ddangos bod lleisiau plant yn cael eu clywed yn glir. Fe fyddwn ni’n gwneud yn siŵr bod ein syniadau’n ddiogel ac yn ateb anghenion pob plentyn.

## Gweithio gyda phlant a theuluoedd sydd  yn cael eu heffieithio gan gam-drin domestig



**Cam-drin domestig** ydy pan fydd un person yn annheg neu'n brifo eu partner. Mae'n gallu meddwl brifo corff rhywun. Mae hefyd yn gallu meddwl dweud pethau sy'n eu dychryn neu'n eu cynhyrfu. Mae yna ffyrdd eraill mae rhywun yn gallu cael eu brifo hefyd.



Fe fyddwn ni'n hyfforddi ein holl staff i'w helpu i ddeall sut mae cam-drin domestig yn gallu effeithio ar blant ac oedolion.



Yna maen nhw'n gallu gweithio mewn ffordd sy'n helpu pawb i deimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi.




Fe fyddwn ni'n rhoi hyfforddiant i'n staff gwaith cymdeithasol fel eu bod nhw'n gallu adeiladu hyd yn oed mwy o sgiliau.

## Dysgu o Adborth



Fe fyddwn ni'n gwella sut rydyn ni'n casglu adborth gan blant, pobl ifanc ac oedolion. Fe fyddwn ni'n ei ddefnyddio i ddysgu a gwneud newidiadau.



Fe fyddwn ni'n parhau i weithio gyda'r [Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol]. Mae hwn yn grŵp rydyn ni'n gweithio gydag ef. Fe fydd yn helpu i wella ein gwasanaethau a'n ffyrdd o weithio.



Fe fyddwn ni'n dysgu o Adolygiadau Ymarfer ac Adolygiadau Achos. Mae'r rhain yn fathau o gyfarfodydd rydyn ni'n ymwneud â nhw. Fe fyddwn ni'n defnyddio beth rydyn ni'n ei ddysgu i wella ein gwaith.



# Ein Staff: Cefnogi ein tîm



Rydyn ni eisiau i'r bobl sy'n gweithio yn Cafcass Cymru gael eu trin yn dda. Rydyn ni eisiau eu cefnogi i wneud eu gorau glas dros blant a theuluoedd.

## Adeiladu hyder yn aelodau ein tîm




Fe fyddwn ni'n diweddaru ein cynlluniau am yr iaith Gymraeg.




Fe fyddwn ni'n cefnogi ein staff i ddeall ystod anghenion plant a'u teuluoedd.



Fe fyddwn ni'n helpu staff i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder. Fe fydd hyn trwy hyfforddiant a dysgu.



Fe fyddwn ni'n rhoi cyfleoedd i reolwyr ddysgu fel eu bod nhw'n gallu rhedeg gwasanaethau'n dda.

**Cefnogi ein timau i ddefnyddio offer digidol yn dda. Mae hyn yn gallu gwella'r ffordd rydyn ni'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.**



Mae offer digidol yn meddwl pethau fel technoleg. Mae'r pethau yma yn ein helpu i weithio yn y ffyrdd gorau.




Fe fyddwn ni'n gwneud ein gwefan yn haws i'w defnyddio. Fe fydd ganddo wybodaeth ddefnyddiol i blant a'u teuluoedd.

## Cefnogi iechyd a llesiant ein staff




Fe fyddwn ni'n defnyddio cynlluniau llesiant gan Lywodraeth Cymru i helpu i gefnogi ein staff.



Fe fyddwn ni'n rhoi gwybodaeth reolaidd i staff am iechyd a llesiant.



Fe fyddwn ni'n parhau i weithio gyda grwpiau eraill i gefnogi llesiant a datblygiad staff.



# Eraill: Gweithio gyda'n gilydd ag eraill



Rydyn ni eisiau rhannu beth rydyn ni'n ei wybod a'i ddysgu gan sefydliadau eraill.

## Gwneud newidiadau a gweithio'n dda gydag eraill



Byddwn yn gweithio'n galed gyda'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw i wella gwasanaethau i blant a'u teuluoedd. Er enghraifft, Llysoedd Ei Mawrhydi, cynghorau lleol ac eraill.



Fe fyddwn ni'n parhau i chwarae rhan fawr yn y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol a grwpiau eraill rydyn ni'n rhan ohonyn nhw.



Fe fyddwn ni'n parhau i siarad dros blant a theuluoedd yng Nghymru.



Fe fyddwn ni’n parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod gwasanaethau’n wych.

## Rhannu Gwybodaeth i barhau i wella




Fe fyddwn ni’n gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn yr holl reolau diogelu data. Mae hyn yn meddwl bod gwybodaeth pobl yn cael ei chadw’n ddiogel.



Fe fyddwn ni’n cymryd rhan mewn ymchwil sy’n helpu i wella ein gwasanaethau.



Fe fyddwn ni’n gweithio gyda sefydliadau eraill fel ein bod ni i gyd yn gallu dysgu oddi wrth ein gilydd.

## Bod yn agored ac yn onest am ein gwaith



Fe fyddwn ni’n rhannu beth rydyn ni’n ei ddysgu o achosion i helpu i wella pethau.



Ond gwneud yn siŵr nad ydy gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu.



Fe fyddwn ni’n cynnwys pobl sy’n defnyddio ein gwasanaethau i ofyn sut ddylen nhw fod.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247